

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#). [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood; and M. Evans (Aelod Lleyg)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett a S. Wyndham (Archwilio Cymru).

132 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

133 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd P. Drake.

134 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

135 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

136 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2021/22 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 9 Cyflwynwyd Mehefin, 2022 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Amlinellwyd bod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i bob Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau bod gweithgarwch diogelu corfforaethol yn cael ei ddwyn i sylw grŵp eang o aelodau. Derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad Archwilio Cymru ynglŷn â diogelu plant yn 2019 ac felly roedd wedi ei

No.

gynnwys yn y cyfeiriadau ers y cyfnod hwn. Cytunodd y Pwyllgor i ddarparu diweddariadau pellach yn flynyddol, bob 12 mis.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai gwneud adroddiadau yn fwy hygyrch yn y dyfodol y byddai'n ddefnyddiol i Eirfa Termau gael eu cynnwys yn ogystal â mwy o wybodaeth i ddangos lefelau diogelu'r cyfrifoldeb ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn diweddariadau ar weithgareddau Diogelu Corfforaethol bob 12 mis.
- (2) BOD adroddiadau diweddarau yn y dyfodol yn cynnwys Rhestr Termau ac yn dangos lefelau cyfrifoldeb Diogelu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau i fonitro trefniadau Diogelu.
- (2) Sicrhau bod adroddiadau diweddarau yn y dyfodol yn fwy hygyrch a'u bod yn cynnwys mwy o wybodaeth am drefniadau Diogelu ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

137 DIWEDDARIAD CHWARTER 4 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) -

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad yr oedd ei ddiben i ddiweddarau'r Pwyllgor ar safle chwarter 4 Risgiau Corfforaethol ar gyfer Ebrill 2021-Mawrth 2022 a gynhwysir o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Crynodeb Risg Corfforaethol.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 4 (Ionawr 2022-Mawrth 2022). Ymgorfforwyd dadansoddiad risg yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol (ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad). Roedd hyn yn galluogi'r swyddogion a'r Aelodau i nodi ac asesu tueddiadau a natur drawsbynciol risgiau gyda'r gallu i archwilio'n fanwl fanylion risgiau yn ôl yr angen.

Roedd 18 o risgiau corfforaethol ar y Gofrestr. Yn ystod y cyfnod chwarter 4, sgoriodd 2 risg yn uchel, 6 risg yn ganolig/uchel a 10 risg wedi sgorio yn ganolig. Adroddwyd na fu unrhyw symudiad mewn statws risg yn ystod pedwerydd chwarter y flwyddyn. O ran cyfeiriad teithio, roedd yr holl risgiau ar y Gofrestr wedi cynnal safle sefydlog. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai risgiau Ad-drefnu Ysgolion, Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Diwygio Lles yn parhau i waethygu dros amser.

Rhoddodd yr Adroddiad Crynodeb Risg Corfforaethol, sydd ynghlwm yn Atodiad A, ddadansoddiad manylach o'r tueddiadau risg dros y chwarter diwethaf, sydd hefyd yn

No.

cynnwys argymhelliad y dylid disodli'r risg Diwygio Lles ar y Gofrestr Risg gyda risg costau byw i archwilio'n helaethach y risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng mewn perthynas â'r Cyngor wrth ddarparu ei wasanaethau ac ar ddinasyddion. Cynigiwyd bod risg costau byw yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraethu ac Archwilio Pwyllgor chwarter nesaf (sy'n adlewyrchu cyfnod chwarter 1). Darparodd Atodiad B y Gofrestr Risg Gorfforaethol gyflawn, a oedd yn amlinellu natur pob Risg Corfforaethol yn llawn.

Wrth gael cais i wneud sylw, cododd Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y pwyntiau neu'r ymholiadau canlynol:

- Pa mor ddefnyddiol oedd y gofrestr/adrodd i'r sefydliad.
- Faint o amser a gymerodd ac oedd cynhyrchu'r gofrestr yn werth da - Faint o awtomeiddio oedd yno gyda chynhyrchu'r Gofrestr
- Sut y gall effeithiolrwydd rheolaethau fod mor gyfyngedig â pheidio â chael unrhyw effaith.
- Sut y gellid adeiladu sganio'r gorwel i'r Gofrestr dros y tymor canolig.
- Oedd gormod o risgiau ar y Gofrestr.
- Oedd angen rhesymoli'r Gofrestr.
- Oedd y diffiniadau'n gywir ac yn gwneud iddyn nhw adlewyrchu'r effeithiau ar y Cyngor - mwy o sylwebaeth sicrwydd i'w cynnwys.
- Oedd angen cael yr holl gynlluniau gweithredu lliniarol a atodir gyda'r holl wybodaeth yno.
- Roedd Atodiad A yn ddiddorol iawn ac roedd y mapiau gwres yn arbennig o ddefnyddiol.

Wrth ymateb i'r uchod, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ei fod yn awyddus i archwilio defnyddioldeb y Gofrestr, o gofio bod y diweddariad yn darparu'r sefyllfa tua diwedd mis Mawrth 2022. Felly, byddai cynhyrchu'r Gofrestr yn cael ei ystyried a fyddai'n gyfle i wella'r ffordd y cyflwynwyd gwybodaeth gan gynnwys sganio gorwelion. Ychwanegodd y byddai gweithdy yn cael ei gynnal i edrych ar strategaeth risg y Cyngor yn fanylach, ac fe fyddai gwahoddiad i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymryd rhan. O ran nifer y risgiau ar y Gofrestr, dywedodd y Cyfarwyddwr bod 18 yn ymddangos yn uchel, ond roedd yr adolygiad o'r strategaeth risg yn gyfle i'r Gofrestr gael ei rhesymoli. Roedd cyfle hefyd i archwilio ac adrodd ymhellach am y ffyrdd y cafodd risgiau eu cyd-gysylltu, yn ogystal â darparu mwy o wybodaeth ynghylch effeithiau'r risgiau.

Holodd y Cynghorydd E. Goodjohn am y rhesymau dros lithriad sy'n gysylltiedig â risg CR15 - Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai gwybodaeth yn cael ei geisio gan Ddysgu a Sgiliau a'i throsglwyddo drwy e-bost.

Yna,

PENDERFYNWYD -

(1) Nodi sefyllfa Chwarter 4 o ran risgiau corfforaethol(Ebrill 2021 - Mawrth 2022) fel yr amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad.

No.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet yn argymhell dileu'r risg Lles a chynnwys risg Costau Byw ar y Gofrestr ar gyfer y chwarter nesaf.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Tynnu sylw'r Cabinet at fater sy'n dod i'r amlwg.

138 DATGANIAD CYFRIFON 2021/22 NA ARCHWILIWDYD (PC/SA151) -

Dyweddod y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg fod y Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg 2021/22 bellach wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Pwyllgor am adolygiad yn dilyn cychwyn yr archwiliad allanol. Daethpwyd â chyfrifon Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir 2021/22 a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Blynyddol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor am wybodaeth hefyd.

Roedd Datganiad Cyfrifon Drafft 2021/22 Bro Morgannwg, Datganiad Cyfrifon y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Ffurflen Flynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol bellach wedi'u cwblhau. Roedd yr Archwiliad o Gyfrifon 2021/22 Cyngor Bro Morgannwg, y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a Chyfrifon Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Caerdydd, y Fro a'r Cymoedd bellach wedi dechrau.

Oherwydd effaith y Pandemig Covid 19 parhaus a'r angen i ailwerthuso holl asedau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y Cyngor y cyfrifon drafft erbyn 4 Gorffennaf, 2022 yn hytrach na 31 Mai, 2022, y dyddiad cau, a hysbysebwyd hyn ar wefan y Cyngor yn unol â'r rheoliadau.

Byddai Datganiad Cyfrifon Bro Morgannwg 2021/22, ynghlwm yn Atodiad A, yn destun archwiliad allanol a byddai'r cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pan gaiff yr archwiliad ei gwblhau ynghyd ag adroddiad ISA260 yr archwilywyr allanol cyn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Cyngor.

Dyweddod y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg fod Atodiad A diwygiedig wedi'i gyflwyno fel bod cwpl o wallau teipograffig wedi'u nodi ar Nodyn 7 - Cyfrif Refeniw Tai ac ar dudalen 86. Roedd diwygiad wedi ei nodi hefyd ym mharagraff 5.1 o'r adroddiad eglurhaol, a ddylai fod wedi darllen:

"Caiff y cyfrifon eu paratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cyfrifon 2021/22. Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy wedi cynyddu gan £20.956m i £144.601M o £123.645M yn 2020/21. O hyn, mae £642k hwn yn ymwneud â chynnydd yn y Gronfa Gyffredinol, mae £5.439M yn ymwneud â chynnydd yng ngwarchodfeydd yr ARhC ac mae £17.881M yn ymwneud â chynnydd mewn cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi".

Nodwyd bod rhaid i'r cyfrifon archwilio terfynol gael eu llofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol cyn 30 Tachwedd 2022 ac fe holodd y Pwyllgor, gyda therfynau amser tynnach ar waith ar gyfer blynyddoedd i ddod, oedd digon o adnodd i sicrhau bod y

No.

cyfrifon wedi'u llofnodi mewn pryd. Wrth ateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod tîm Cyllid yn un bach, a bod rhai staff profiadol wedi gadael cyflogaeth y Cyngor, felly roedden nhw yn y sefyllfa o geisio ôl-lenwi swyddi oedd wedi creu pwysau. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod angen edrych hefyd a oedd polisiâu cyfrifon y Cyngor yn briodol ac yn cwmpasu'r manylion digonol sydd eu hangen.

Pan ofynnwyd i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar y Datganiad Cyfrifon drafft, awgrymodd fod angen mwy o naratif a manylion o amgylch Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd. Yn ogystal, teimlai'r Pwyllgor y gellid gwella'r adran grynhoi naratif, felly cytunwyd y byddai'r canllawiau cysylltiedig yn cael eu gwirio.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, mae'r Pwyllgor

PENDERFYNWYD -

- (1) Cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor ynghylch Datganiad Cyfrifon Cyngor Bro Morgannwg nas archwiliwyd ar gyfer 2021/22 at y Pennaeth Cyllid fel y Swyddog Adran 151 i'w trafod wedyn gydag archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru.
- (2) Cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor ynghylch Datganiad Cyfrifon Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir nas archwiliwyd ar gyfer 2021/22 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir at y Pennaeth Cyllid fel Trysorydd y Cydbwyllgor i'w trafod wedyn gyda'r archwilwyr allanol, Archwilio Cymru.
- (3) Cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor ynghylch Datganiad Blynyddol 2021/22 Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd at y Pennaeth Cyllid fel Trysorydd y Cydbwyllgor i'w trafod wedyn gyda'r archwilwyr allanol, Archwilio Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu gynnal adolygiad cychwynnol o Ddatganiad Cyfrifon nas archwiliwyd Cyngor Bro Morgannwg.
- (2) Er mwyn i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu gynnal adolygiad cychwynnol o Ddatganiad Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol nas archwiliwyd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.
- (3) Er mwyn i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu gynnal adolygiad cychwynnol o Ddatganiad Blynyddol nas archwiliwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd.

139 DATGANIAD DRAFFT LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021/22
(PC/SA151) -

Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i'w adolygu ac argymhell ei fabwysiadu gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.

No.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol, gynnal adolygiad blynyddol o reolaeth a llywodraethu mewnol ac mae'n rhaid cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) a ddeilliodd o hynny yn y Datganiad Cyfrifon.

Darparodd y DLIB drafft felly asesiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac arfarniad o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor a nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau. Daeth y DLIB i'r casgliad, o'r adolygiad, yr asesiad a'r gwaith monitro parhaus a wnaed, y gellid rhoi sicrwydd rhesymol bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hystyried yn addas i'r diben yn unol â'r fframwaith llywodraethu.

Byddai'r DLIB drafft yn cael ei adolygu fel rhan o'r archwiliad allanol ar y Datganiad Cyfrifon a dylai adlewyrchu unrhyw faterion llywodraethu hyd at y dyddiad y cymeradwyodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021/2022.

Holodd Mr N. Ireland lefel y manylder gan fod 36 tudalen ymddangos yn llawer. Holodd hefyd ynghylch fformat y ddogfen a gofynnodd a oedd lle i'r ddogfen gael ei gwneud yn fwy hygyrch. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol bod y dogfennau hyn fel arfer yn hir gan eu bod yn gorfod cadw at y Fframwaith CIPFA/SOLACE (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg/ Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol). Ond byddai cyfle i edrych ar fformat dogfennau'r dyfodol fel rhan o Adroddiad Hunan-Asesu newydd y Cyngor yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Yna,

PENDERFYNWYD – BOD y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021/2022 yn cael ei argymhell i'w fabwysiadu gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

140 ADRODDIAD TWYLL CORFFORAETHOL BYNYDDOL 2021/22 (PGAMR) -

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion i aelodau'r Pwyllgor am y camau a gynhaliwyd o ran gwrth-dwyll yn ystod 2021-22 gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am Ymarferiad y Fenter Twyll Genedlaethol (MTG).

Un o swyddogaethau craidd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio effeithiol oedd ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor, yr amgylchedd rheoli a threfniadau gwrth-dwyll a llygredd cysylltiedig. Roedd yr Adroddiad Twyll Blynyddol yn Atodiad A i'r adroddiad yn crynhoi sut y llwyddodd y Cyngor i reoli'r risg o dwyll yn ystod 2021/22 gyda'r nod o atal, canfod, ac ymchwilio ac adrodd ar dwyll yn dilyn hynny.

No.

Roedd Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll 2021 i 2024 yn sail i ymrwymiad y Cyngor i atal pob math o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, p'un a yw'n cael ei geisio'n allanol neu o'r tu mewn. Roedd y Fframwaith yn cynnwys gwaith adweithiol a rhagweithiol, y gwaith rhagweithiol sy'n cael ei gyflwyno mewn cynllun gweithredu. Roedd y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau a dangoswyd y sefyllfa bresennol yn yr adroddiad.

Cymerodd y Cyngor ran yn y Fenter Twyll Genedlaethol (MTG). Roedd hwn yn ymarfer bob dwy flynedd a gydlynwyd yng Nghymru gan Archwilio Cymru. Manylwyd ar ganlyniadau'r ymarfer paru data diweddaraf yn yr adroddiad blynyddol. Nodwyd cyfanswm o 360 o achosion dwyll neu wallau sy'n cyfateb i £43,683 o gronfeydd y gellir eu hadennill. Yn ogystal, nododd yr ymarfer paru ddisgownt person sengl £177,018 o gronfeydd adenilladwy.

Gallai gwaith twyll adweithiol gael ei gynhyrchu gan bryder a godir drwy atgyfeiriad 'Chwythu'r Chwiban' neu gan unrhyw Swyddog neu Reolwr yn uniongyrchol i Archwilio Mewnol neu'r Swyddog Ymchwiliadau. Cafodd crynodeb o'r gwaith twyll adweithiol a wnaed yn ystod 2021/22 ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Archwilio Cymru yr adroddiad, 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru. Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion ynghyd â'r canllawiau Strategaeth Mynd i'r Afael â Thwyll a Llygredd 2020 ei ystyried yn llawn a'i integreiddio i'r Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll 2021 i 2024. Sicrhodd hyn fod y gwaith gwrth-dwyll sy'n cael ei wneud yn dangos gwelliant parhaus.

Dywedodd Mr N. Ireland na allai weld llawer am ddadansoddiad gwir achos i nodi pam y digwyddodd materion, ac fe gwestiynodd y broses y digwyddodd y twyll drwyddo a nodi a oedd angen i brosesau newid. Mewn ateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y gwaith a wnaed wedi ei ddangos yn Atodiad A, Adran 4 – Gwaith Gwrth-Dwyll. Roedd hyn yn dangos gwrth-dwyll penodol, gwaith llygredd oedd wedi ei wneud, ac roedd yna bump ohonynt. Byddai unrhyw risgiau neu faterion rheoli a nodwyd o'r gwaith hwnnw yn cael eu hadolygu gan archwilio mewnol er mwyn argymhell y gwelliannau angenrheidiol i'r rheolwyr.

O ran materion yn ymwneud â'r disgownt person sengl ac yn gysylltiedig â gwelliant parhaus, cynghorwyd y Pwyllgor y byddai rhaid i'r Gwasanaeth fod yn ofalus gyda'r pariadau ac unrhyw fath o thema a nodwyd. Er enghraifft, gyda'r archwiliad budd-dal tai, byddai gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd hynny ac ystyried y materion gyda'r swyddog twyll y mae gofyn iddo adrodd yn uniongyrchol i Ddirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Wrth ofyn iddo ychwanegu unrhyw beth, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, gan fod y MTG wedi bod yn weithredol ers blynyddoedd lawer, teg dweud bod Cyngor Bro Morgannwg wedi bod yn arbennig o ragweithiol wrth fynd i'r afael â'r pariadau data ac wedi nodi cryn dipyn o achosion. Un o'r pethau roedd angen i'r Cyngor ei gyflawni oedd datblygu ei bolisi erlyn a allai fod yn rhwystr yn erbyn twyll, a bod cyhoedduswydd ynghylch erlyniadau yn rhywbeth fyddai hefyd yn cael ei ystyried.

No.

Gofynnodd Mr. M. Evans a oedd cysylltiadau rhwng Cofrestr Risgiau'r Cyngor a'r Gofrestr Risg Twyll, a gwnaeth sylw ar botensial gwrthdaro buddiannau rhwng y gweithgaredd ymchwilio i dwyll ac archwilio mewnol tra hefyd yn adolygu risgiau a rheolaethau archwilio mewnol a thwyll. Wrth ymateb i'r pwynt cyntaf ynghylch cysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol bod sylw i'r Gofrestr Risg pan oedd y cynllun archwilio mewnol yn cael ei ddatblygu. Roedd cysylltiadau hefyd â chynlluniau gwasanaeth yr adrannau. O ran gwrthdaro posib, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y swyddogaeth twyll, yn hanesyddol ar draws Cymru, fel arfer wedi ei rannu 50/50 rhwng archwilio mewnol a'r Adran Refeniw. Budd-daliadau Tai a budd-daliadau yn ymwneud â Threth Gyngor oedd yr ardal gyda'r cyfaint uchaf a'r risg uchaf. O'i safbwynt ef, un o'r prif fanteision o gael y swyddogaeth twyll dan archwilio mewnol oedd gallu i gael golwg gorfforaethol lawer ehangach ac roedd hefyd yn bwysig cael perthnasoedd rhyng-adrannol da a threfniadau cadarn i rannu deallusrwydd a dysgu gan eraill. Yn ei farn ef roedd mwy o wrthdaro buddiannau posib o gael y swyddogaeth twyll o fewn Adran Refeniw yn hytrach nag Archwilio Mewnol. Pan fydd Archwilio Mewnol yn adolygu trefniadau gwrth-dwyll byddai'n cael ei wneud gan Archwilydd nad oedd yn rhan o waith twyll er mwyn helpu sicrhau annibyniaeth.

Cafodd y Pwyllgor wybod y byddai dadansoddiad manylach o dwyll yn digwydd eleni, felly byddai canfyddiadau hynny yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, nododd y Pwyllgor

PENDERFYNWYD - BOD cynnwys yr adroddiad, y mesurau sydd ar waith a'r gwaith sy'n cael ei wneud i atal a chanfod twyll a gwallau yn cael eu nodi.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

141 CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2022-23 (PGAMR) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio a gynhwyswyd ac a gymeradwywyd yng Nghynllun ar Sail Risg Archwilio Mewnol 2022 -23.

Manylwyd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun a gymeradwywyd ar sail risg archwilio mewnol 2022-23 yn Atodiad A i'r adroddiad. Dangosodd fod 5 o adolygiadau wedi'u cwblhau, dau gyda barn archwilio tra bod un adroddiad wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft. Roedd 8 adolygiad yn parhau.

Yn seiliedig ar yr asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol y ddau archwiliad a gwblhawyd hyd yma, rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i un archwiliad, barn o sicrwydd

No.

rhesymol i'r archwiliad arall. Hyd yn hyn roedd 5 o argymhellion wedi eu gwneud i wella'r amgylchedd rheoli. Byddai gweithredu'r rhain yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r Pwyllgor mewn adroddiad ar wahân.

Holodd Mr N. Ireland a oedd yn bosibl cael amcangyfrif pryd y byddai'r adolygiadau sy'n gysylltiedig â'r Gofrestr Risg yn cael eu cwblhau, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â Diogelu, Gwastraff a Chaffael. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ei bod yn anodd nodi amserlen benodol gan fod heriau'n ymwneud ag adnoddau staff a blaenoriaethu cynlluniau archwilio ar draws pedwar awdurdod lleol. Ychwanegodd fod y Cynllun yn nodi statws yr adolygiadau hynny, p'un a oedden nhw wedi dechrau neu wedi cael eu dyrannu i ddechrau. Roedd rhai gyda statws yn parhau'n wag sef y rhai nad oedd wedi eu dyrannu eto i Archwilydd. Nid oedd yr adolygiadau ar gyfer Gwastraff a Chaffael wedi'u dyrannu eto, felly mae'n debygol y bydden nhw'n dechrau ar ôl yr haf. Cyfeiriodd y Dirprwy Bennaeth at drafodaethau rheolaidd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gweithredol, oedd hefyd wedi derbyn copïau o'r Cynllun, am yr amseriadau ar gyfer cynnal adolygiadau gan y gallai fod materion gweithredol a effeithiodd pan allai adolygiad ddigwydd.

Holodd Mr N. Ireland hefyd a ellid darparu crynodeb o unrhyw risgiau canolig neu uchel mewn adroddiadau diweddar yn y dyfodol, yn ogystal â mwy o wybodaeth am gwmpas pob adolygiad. Cytunodd y Dirprwy Bennaeth i'r awgrymiadau gael eu hystyried ymhellach.

Wrth ateb ymholiad ynghylch cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol eu bod yn y broses o lenwi rhai swyddi gwag. Roedd rhai pwysau gweithlu hefyd o fewn rhai gwasanaethau oedd wedi effeithio ar pryd gallai adolygiad ddechrau, felly fel y nodwyd yn flaenorol, bu trafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac uwch reolwyr ynghylch yr angen i gwblhau'r Cynllun a chynnal adolygiadau. Byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw oedi i unrhyw adolygiad risg uchel.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor sylw at adolygiadau fel Caffael a oedd wedi cael ei wthio 'nôl o 2021/22, ac roedden nhw'n awyddus i gefnogi Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol i gyflawni'r Cynllun ar gyfer 2022/23. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid cynghori uwch reolwyr o farn y Pwyllgor ynglŷn â phwysigrwydd gwaith Archwilio Mewnol a gyflawnir a bod y gwaith yn cael ei flaenoriaethu a'i gefnogi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod cyfarfod o Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor i fod i gael ei gynnal, felly byddai'r mater yn cael ei godi yno.

Yna,

PENDERFYNWYD -

NODI cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2022-23.

(2) BOD Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn cael gwybod am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch pwysigrwydd gwaith Archwilio Mewnol

No.

arfaethedig yn cael ei wneud a'i fod yn cael ei flaenoriaethu a'i gefnogi gan Uwch Reolwyr.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Tynnu sylw'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol at y pwysigrwydd i flaenoriaethu adolygiadau archwilio a oedd wedi'u gohirio ac nas cynhaliwyd yn ystod 2021-22.

142 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU (PGAMR) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi Blaenraglen Waith wedi'i Diweddaru i'r Aelodau ar gyfer 2022/23.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau bod y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth briodol i bob agwedd ar eu swyddogaethau craidd, roedd y Flaenraglen Waith a atodir i'r adroddiad yn Atodiad A wedi'i chynhyrchu ac yn cydfynd â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Roedd y Flaenraglen Waith wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau oedd eu hangen ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor o dan Ddeddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd ac yn cynnwys eitemau y gofynnodd aelodau'r Pwyllgor amdanynt yn flaenorol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r Flaenraglen Waith a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Roedd y cyfarfod nesaf a drefnwyd yn gyfarfod ychwanegol yn benodol i aelodau'r Pwyllgor dderbyn adroddiad Hunan-Asesu'r Cyngor, ond wrth i'r agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref ymddangos yn llawn, cytunwyd i Bnnaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol mewn cydweithrediad â Chyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Chraffu, cynnal trafodaethau ynghylch amseru eitemau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor i'w cynnal ym mis Medi a Hydref.

Felly,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.
- (2) BOD Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Chraffu, yn cynnal trafodaethau ynghylch amserlennu eitemau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor a gynhelir ym mis Medi a mis Hydref.

No.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol o gynnydd y rhaglen waith arfaethedig ac yn cael gwybod amdano.
- (2) Amserlennu'r adroddiadau a'r eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi a mis Hydref.